# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd/ Councillor David Walker  Plaid/ Party:  Y Ceidwadwyr**

**Ward: Lisvane/ Llysfaen**  **Etholwyd yn Gyntaf/First Elected:**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Aelod dros Llys-faen.
Aelod o Grŵp Ceidwadwyr y Cyngor.
Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu Perfformiad
Aelod o'r Pwyllgor Archwilio.
Aelod o'r Pwyllgor Amodau Cyflogaeth.
Aelod o'r Panel Penodiadau.
Cyfarfodydd briffio craffu rheolaidd gyda'r Arweinydd, y Prif Weithredwr a chadeiryddion y pwyllgorau craffu eraill.
Aelod o banel Heddlu a'r Gymuned Ynghyd Llys-faen.
Mynychu Pwyllgorau Cynllunio fel aelod lleol, yn ôl y gofyn, yn cynrychioli preswylwyr lleol.
Llywodraethwr, Ysgol Gynradd Llysfaen ac aelod o Bwyllgor Staff a Chyllid yr ysgol.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Mae Llysfaen yn ward Aelod unigol gyda bron i 3,000 o etholwyr. Rwy'n delio â cheisiadau preswylwyr am gamau gan y Cyngor ar amrywiaeth eang o faterion lleol.

Rwy'n gwneud adroddiad anwleidyddol misol o fy ngweithgareddau i etholwyr gyda phapur newydd cymunedol lleol yn mynd i 80% o breswylwyr Llysfaen.

Rwy'n gweithio'n agos gyda Chyngor Cymunedol a Chymdeithas Gymunedol Llysfaen ac yn delio â materion sydd angen i ni gydweithredu arnynt. Rwy'n gweithio'n agos â Chyngor Cymunedol Llysfaen i ymateb i Gynllun Datblygu Lleol y Cyngor ac yn delio â swyddogion a'r Aelod Cabinet sy'n cynrychioli safbwyntiau lleol ar y Cynllun.

Rwyf wedi gweithio mewn cydweithrediad â'r swyddog heddlu cymunedol lleol a PCSOs o ran helpu Llysfaen i gynnal un o'r lefelau trosedd cymunedol isaf yn Ne Cymru.

Rwyf wedi cefnogi grwpiau amgylcheddol lleol i geisio bod yn gymwys am grantiau'r Cyngor a grantiau eraill.

Cadeirydd Grŵp Amgylcheddol Llysfaen sy'n cwrdd yn rheolaidd i oruchwylio ac amddiffyn llwybrau troed a hawliau tramwy, coedlannau lleol, Parc Cefn Onn a Chrib Caerffili, y cwbl wedi'u lleoli o fewn y ffin gymunedol. Mae swyddogion y Cyngor yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn ac rwy'n cynorthwyo i fonitro canlyniadau.

Rwy'n dechrau ac yn mynychu cyfarfodydd safle gyda swyddogion ar brojectau allweddol Llysfaen gan gynnwys gwelliannau i arwynebau ffyrdd, cynlluniau traffig newydd a mesurau diogelwch.

Rwy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn ymweliadau gyda swyddogion i Barc Cefn Onn i fonitro gwelliannau i'r parc, gan nodi ardaloedd ar gyfer camau gweithredu.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi gweithio'n llwyddiannus gyda swyddogion a'r LCC i uwchraddio Cae Chwarae Plant Llysfaen, gan osod offer chwarae modern.

Rwyf wedi creu perthnasau a chynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag adeiladwyr tai mawr sydd ar fin dechrau adeiladu dros 1000 o dai yn lleol.

Rwyf wedi negodi'n llwyddiannus bron i £500k o ran cyllid cynllunio a fydd yn ein galluogi i barhau â'r Project Hen Ysgol. Bydd hyn yn cynnig cyfleusterau newydd gan gynnwys llyfrgell, siop goffi ac ystafelloedd cyfarfod i'w defnyddio gan breswylwyr lleol a grwpiau cymunedol.

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd parciau i drafod gwelliannau mawr i Barc Cefn Onn, gan ymweld â'r parc yn rheolaidd i weld y cynnydd.

Rwyf wedi gweithio â swyddogion traffig ar nifer o welliannau ffyrdd a chynlluniau draenio tir gan gynnwys ymweliadau safle.

**Gweithgareddau / Materion Eraill**

Rwyf wedi cadeirio grŵp gorchwyl sy'n archwilio ethos a safonau gwasanaeth cwsmeriaid y Cyngor. Rwyf wedi gwneud argymhellion i'r cabinet i wella profiad y cwsmer ar gyfer preswylwyr y ddinas sy'n defnyddio gwasanaethau lleol.

Rwyf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau dinesig gan gynnwys Cyflwyno'r Arglwydd Faer.

**Y Cynghorydd David Walker**